Polisi Cyffredin Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Bangor ar Wasanaethau Ymgynghori

Mae Prifysgolion Aberystwyth a Bangor wedi ymrwymo i sicrhau bod canlyniadau eu haddysgu a'u hymchwil ysgolheigaidd yn cael eu defnyddio er budd cymdeithas ac economi Cymru a thu hwnt. Mae'r ddogfen hon yn nodi safbwynt polisi'r ddwy Brifysgol o ran defnyddio'r wybodaeth honno drwy ddarparu gwasanaethau ymgynghorol.

Partneriaeth

Mae Prifysgolion Aberystwyth a Bangor wedi cydweithio i ddatblygu'r Polisi hwn ac mae'r Prifysgolion wedi cytuno i fabwysiadu polisi cyffredin ar ymgynghori er mwyn hybu mwy o gydweithio rhwng y cymunedau academaidd a chefnogi yn y ddau sefydliad. Mae'r Polisi hwn yn gweithredu fel polisi i Brifysgolion Aberystwyth a Bangor, p'un a ydynt yn gweithredu gyda'i gilydd neu ar wahân ac mae'n berthnasol i bob sefydliad fel corff ar wahân.

Mae'r Prifysgolion wedi sefydlu cyfrwng ar y cyd i weinyddu gweithgareddau Ymgynghoriaeth a Gefnogir gan Brifysgol fel y diffinnir hynny yn y Polisi hwn. Mae Aber-Bangor Consultancy Ltd yn gweithredu fel un fframwaith cefnogi i gefnogi gweithgareddau ymgynghori'r Prifysgolion lle daw'r rheini o fewn y diffiniad o Ymgynghoriaeth a Gefnogir gan Brifysgol.

Mae'r Prifysgolion yn annog yn gryf y dylid cyflawni gweithgareddau ymgynghori o fewn cyd-destun y polisi hwn. Trwy'r polisi hwn mae'r Prifysgolion yn sefydlu fframwaith sy'n gwobrwyo staff (lle caniateir hynny) am eu cyfraniad a hefyd fod yn fodel i gyflwyno gwasanaeth. Bydd hyn yn gwarchod Staff a'r Brifysgol o ran rheoli'r risgiau cysylltiedig.

1. RHAGARWEINIAD

1.1 Diben y Polisi hwn yw nodi'r egwyddorion a'r dulliau gweithredu'n ymwneud ag Ymgynghoriaeth a Gwasanaethau Allanol eraill a gyflawnir gan aelodau staff y Brifysgol.

1.2 Anogir aelodau staff y Brifysgol i wneud Ymgynghoriaeth a Gefnogir gan Brifysgol, a gwaith arall cyffelyb, ar yr amod nad yw'n gwrthdaro a buddiannau'r Brifysgol.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gall gwaith ymgynghori a wneir gan staff fod yn fuddiol i'r unigolyn ac i'r Brifysgol, ac mae'n dymuno annog trosglwyddo gwybodaeth trwy ymwneud mwy â gwaith ymgynghori. Yn fwy penodol, gall gwaith ymgynghorol gyflawni'r canlynol:

- cryfhau gallu'r Brifysgol i ymchwilio
- rhoi mwy o amlygrwydd i'r Brifysgol
- cyfrannu at les ariannol y Brifysgol
- hwyluso masnacheiddio ymchwil
- cyfrannu at roi enghreifftiau rhagorol o ddylanwad ac effaith ymchwil a chyfrannu at yr agenda dylanwad
- gweithredu fel cyfrwng i gael sylwadau allanol arloesol a gwerthfawr ar ymchwil ac addysgu
- recriwtio staff academaidd a dal gafael arnynt, gan roi mwy o annibyniaeth i staff a ffyrdd o ychwanegu at eu hincwm
- cyfrannu at ddatblygiad personol staff
- helaethu darpariaeth gwasanaethau ar draws y gymuned, a
- chynyddu rhagolygon gyrfa i fyfyrwyr.
- Gellir defnyddio gwybodaeth yn ymwneud ag Ymgynghoriaeth a Gefnogir gan Brifysgol mewn dogfennau fel y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil i dynnu sylw at berfformiad.

1.3. Bydd darpariaethau'r polisi hwn, sy'n ymwneud â dosbarthu arian a dderbynnir am wasanaethau ymgynghori, yn berthnasol fel rheol i holl staff y Brifysgol, ar wahân i staff:

a. Sy'n dod dan drefniadau trydydd parti'n ymwneud naill ai â'u cyflogaeth neu eu gweithgareddau yn y Brifysgol, a all gyfyngu ar eu rhyddid i wneud gwaith ymgynghorol.

b. a gyflogir mewn adran o'r Brifysgol lle mae angen iddynt sicrhau incwm allanol i gynnal eu hunain.

2. DIFFINIADAU

Defnyddir y diffiniadau canlynol wrth ddehongli'r polisi hwn.

2.1. Mae "Awdurdodwr" yn golygu'r unigolyn a nodir yn y tabl isod:

Awdurdodwr	**Aelod staff**
Cadeirydd y Cyngor	Is-ganghellor
Is-ganghellor	Cofrestrydd a Dirprwy Is-gangellorion
y Dirprwy Is-ganghellor priodol	Deoniaid Colegau neu Benaethiaid Sefydliadau
Cofrestrydd	Uwch Weinyddwyr a Phenaethiaid adrannau nad ydynt yn rhan o Golegau.
Pennaeth Ysgol neu Adran	Aelodau staff academaidd ac an-academaidd

2.2. Mae **"Ymgynghoriaeth"** yn golygu rhoi cyngor a gwneud gwaith arbenigol. Tra gall gynnwys cryn elfen o ddadansoddi, mesur neu brofi, mae'n ddibynnol iawn ar gryn lawer o fewnbwn deallusol i'r cleient (masnachol neu anfasnachol) heb greu gwybodaeth newydd. Gall gwaith ymgynghorol gael ei wneud naill ai gan staff academaidd neu gan aelodau staff nad ydynt ar gontractau academaidd, megis uwch reolwyr neu staff gweinyddol/cefnogi.

2.3. Mae **"Ymgynghoriaeth Breifat"** yn golygu gwaith ymgynghorol a wneir ar delerau cwbl bersonol a phreifat gan aelod staff heb ddefnyddio adnoddau'r Brifysgol nac enw'r Brifysgol. Ni ddaw'r gwaith hwn dan ddarpariaeth yswiriant y Brifysgol ac nid yw'r Brifysgol yn atebol drosto mewn unrhyw ffordd. Fe'i gwneir mewn maes y tu allan i arbenigedd academaidd, ymchwil neu weinyddol y caiff yr aelod staff ei gyflogi/chyflogi i'w gyflawni gan y Brifysgol. Weithiau gellir gwneud Ymgynghoriaeth Breifat o fewn maes arbenigedd yr aelod staff, megis pan fydd gweithgareddau ymgynghorol y tu allan i bolisi neu fframweithiau moesegol y Brifysgol, ond er hynny mae angen cydsyniad yr Awdurdodwr i'w wneud.

2.4. Mae **"Ymgynghoriaeth a Gefnogir gan Brifysgol"** yn golygu gwaith ymgynghorol a ddarperir drwy gytundeb a wneir rhwng y Brifysgol neu un o'i his-gwmnïau a thrydydd parti, lle cyflawnir yr Ymgynghoriaeth gan aelod staff o fewn ei faes/maes arbenigedd academaidd, ymchwil neu weinyddol ac a gyflawnir yn ychwanegol at ddyletswyddau arferol yr aelod staff. Cefnogir yr Ymgynghoriaeth hon gan y Brifysgol a gall gynnwys defnyddio adnoddau'r Brifysgol, ei heiddo deallusol ac adnoddau eraill a bydd yn dod dan yswiriant indemniad proffesiynol y Brifysgol.

2.5. Mae **"Ymgynghoriaeth Brifysgol"** yn golygu gwaith ymgynghorol a gyflawnir dan gytundeb rhwng y Brifysgol neu un o'i his-gwmniau a thrydydd parti lle bydd yr Ymgynghoriaeth yn cael ei gwneud gan aelod staff o fewn ei faes/maes arbenigedd academaidd, ymchwil neu weinyddol, ac a wneir fel rhan o ddyletswyddau'r aelod staff. Ni fydd incwm o Ymgynghoriaeth Brifysgol yn dod dan gymal 4 y cytundeb hwn, ac eithrio y bydd 20% o'r incwm sy'n gysylltiedig ag amser staff ar waith Ymgynghoriaeth yn cael ei gadw gan y Brifysgol, gyda'r 80% yn weddill o incwm yn gysylltiedig ag amser staff ar waith Ymgynghoriaeth yn cael ei dalu i'r Sefydliad.

2.6. Mae **"Swyddfa Fasnachol"** yn golygu'r tîm Ymchwil, Busnes ac Arloesi ym Mhrifysgol Aberystwyth neu'r Swyddfa Ymchwil a Menter ym Mhrifysgol Bangor.

2.7. Mae **"Cyfarwyddwr"** yn golygu Cyfarwyddwr y Swyddfa Fasnachol yn y Brifysgol, a all ddirprwyo'r cyfrifoldeb hwnnw i rywun arall.

2.8. Mae **"Gwasanaethau Allanol"** yn golygu defnydd ategol ac achlysurol o arbenigedd a gwybodaeth aelod staff a ddisgwylir fel rheol gan academyddion, megis traddodi darlithoedd gwadd, rhoi cyflwyniadau mewn cynadleddau, gwasanaethu ar fyrddau

ymgynghorol gwyddonol, cynghorau ymchwil neu gymdeithasau proffesiynol, neu gyflawni gwaith elusennol neu gymunedol ei natur. Gweler Adran 6 am enghreifftiau penodol.

2.9. Mae **"Polisi"** yn golygu'r Polisi hwn ar Ymgynghoriaeth a Gwasanaethau Allanol eraill.

2.10. Mae **"Prifysgol"** yn golygu Prifysgol Aberystwyth neu Fangor ac yn y cyd-destun gall olygu is-gwmni neu gwmni cysylltiedig a bennwyd fel endid priodol i gynnal gweithgareddau Ymgynghoriaeth, megis Aber-Bangor Consultancy Ltd.

3. YMGYNGHORIAETH A GEFNOGIR GAN BRIFYSGOL

3.1. Caniateir trefniadau Ymgynghoriaeth a Gefnogir gan Brifysgol yn unig lle mae'r gwaith yn wahanol i unrhyw broject neu waith arall sy'n cael ei wneud ar ran y Brifysgol (er mwyn osgoi i aelod staff gystadlu â'r Brifysgol am gontractau).

3.2. Gall aelod staff gytuno'n unig i ddarparu gwasanaethau Ymgynghoriaeth a Gefnogir gan Brifysgol gyda chydsyniad ysgrifenedig yr Awdurdodwr ac yn unol â thelerau ac amodau'r Ffurflen Cofrestru Ymgynghoriaeth, sydd ynghlwm fel Atodiad 1 ac a ddiwygir o bryd i'w gilydd.

3.3. Gall yr Awdurdodwr gymeradwyo Ymgynghoriaeth a Gefnogir gan Brifysgol neu Wasanaethau Allanol eraill os gellir gwneud yr ymgynghoriaeth heb niweidio dyletswyddau academaidd, ymchwil neu weinyddol yr aelod staff, ac os na fydd yr Ymgynghoriaeth yn cael effaith niweidiol ar faich gwaith aelodau staff eraill. Cyn cymeradwyo Ymgynghoriaeth neu Wasanaethau Allanol eraill bydd yr Awdurdodwr yn ymgynghori â'r Cyfarwyddwr er mwyn sicrhau y cydymffurfir â pholisïau a dulliau gweithredu perthnasol y Brifysgol. Mae pob Coleg, Sefydliad neu Adran nad yw'n rhan o Goleg yn gyfrifol am gofnodi sawl diwrnod y mae aelodau staff yn ei roi i Ymgynghoriaeth.

3.4. Mae angen cymeradwyaeth y Cyfarwyddwr er mwyn sicrhau y cydymffurfir â phrosesau'r Brifysgol, gwarchod Eiddo Deallusol y Brifysgol, rheoli Gwrthdaro Buddiannau a phriodoldeb telerau cytundebol, yn cynnwys rhai'n ymwneud ag atebolrwydd ac Eiddo Deallusol.

3.5. Gellir neilltuo hyd at 30 diwrnod y flwyddyn (yn amodol ar gymal 9.4) i Ymgynghoriaeth a Gefnogir gan Brifysgol. Dan amgylchiadau anarferol gellir cyflwyno achos i fynd dros y lwfans hwn yn unig gyda chadarnhad yr Is-ganghellor neu rywun a enwebwyd ganddo/ganddi.

3.6. Bydd taliadau am ddefnyddio adnoddau Prifysgol wedi eu seilio fel rheol ar gost lawn yr adnoddau, fel y pennwyd hynny gan y Swyddfa Fasnachol ac y cytunwyd gan yr aelod staff a'r Awdurdodwr.

3.7. Gall yr Awdurdodwr ac/neu'r Cyfarwyddwr wrthod rhoi cefnogaeth y Brifysgol i'r Ymgynghoriaeth, ond caniatáu i'r aelod staff wneud y gwaith fel Ymgynghoriaeth Breifat. Yn y cyfryw achosion, rhaid i'r aelod staff gydymffurfio â gofynion Cymal 5.

3.8. Lle mae'r Awdurdodwr neu'r Cyfarwyddwr yn gwrthod rhoi hawl i aelod staff wneud Ymgynghoriaeth a Gefnogir gan Brifysgol, gall yr aelod staff apelio drwy lythyr at y Dirprwy Is-ganghellor dros Ymchwil. Bydd gan y DIG dros Ymchwil ryddid eang i ddatrys materion yn ymwneud ag Ymgynghoriaeth a gall benodi uwch aelod staff annibynnol i adolygu'r penderfyniad.

3.9. Oni bai y gellir ei gyfiawnhau, ni chaniateir Ymgynghoriaeth a Gefnogir gan Brifysgol dan yr amgylchiadau a ganlyn:

3.9.1. pan fo'r gwasanaethau Ymgynghoriaeth yn cefnogi projectau, megis projectau ymchwil, sy'n cael eu cyflawni gan y Brifysgol; neu

3.9.2. pan fyddai'r cyfryw Ymgynghoriaeth yn atal y Brifysgol neu ei staff yn gytundebol rhag cymryd rhan mewn ymchwil neu Ymgynghoriaeth arall.

3.10. Pan fo'r Ymgynghoriaeth yn cynnwys rhoi tystiolaeth arbenigol mewn Llysoedd Barn, Llysoedd Cyflafareddu, neu o flaen Pwyllgorau Seneddol, ni ellir gwneud yr Ymgynghoriaeth heb ganiatâd pendant yr Is-ganghellor neu rywun a bennwyd ganddo/ganddi. Mae gan y Brifysgol ffurflen "Cais am Ganiatâd i weithredu fel Tyst Arbenigol" a rhaid i hon gael ei llofnodi gan yr aelod staff, yr Awdurdodwr a'i chymeradwyo gan yr Is-ganghellor.

3.11. Pan fydd yn cyflawni Ymgynghoriaeth a Gefnogir gan Brifysgol bydd yr aelod staff yn cael ei indemnio ar gyfer y gwaith dan sylw yn unol â thelerau Yswiriant Indemniad Proffesiynol y Brifysgol. Ni ddarperir yr yswiriant hwn yn achos Ymgynghoriaeth Breifat (gweler Cymal 6, isod).

3.12. Rhaid i aelodau staff ddatgan yn flynyddol yn eu Datganiad o Fuddiannau Allanol nifer y dyddiau a dreuliwyd yn cyflawni gwasanaethau Ymgynghoriaeth a Gefnogwyd gan Brifysgol, a chydymffurfio â holl bolisïau perthnasol y Brifysgol, megis rhai'n ymwneud â gwrthdaro buddiannau ac eiddo deallusol.

4. IAWNDAL AM YMGYNGHORIAETH A GEFNOGIR GAN BRIFYSGOL

4.1. Caiff incwm o Ymgynghoriaeth a Gefnogir gan Brifysgol ei ddyrannu yn y ffordd a ganlyn:

4.1.1. Bydd y Brifysgol yn derbyn 20 y cant o'r incwm gros yn ymwneud ag amser yr ymgynghorydd fel tâl am reoli'r Ymgynghoriaeth a rhoi cefnogaeth y Brifysgol iddi.

4.1.2. Caiff yr holl gostau'n deillio o'r project eu talu o'r gweddill. Gall costau o'r fath

gynnwys, er enghraifft, taliadau i is-gontractwyr, costau ysgrifenyddol, costau technegol, costau pryniant, cyflenwadau, nwyddau traul, a ffioedd am ddefnyddio adnoddau'r Brifysgol, yn cynnwys unrhyw ffioedd mainc.

4.1.3. Bydd y gweddill yn cael ei dalu i'r aelod staff.

4.2. Gellir talu ffioedd i aelodau staff drwy'r ffyrdd a ganlyn, fel y dewisir gan yr aelod staff:

4.2.1. yn electronig drwy system gyflogau ganolog y Brifysgol, yn amodol ar ddidyniadau PAYE ac Yswiriant Gwladol priodol (cyfraniad yr aelod staff a'r cyflogwr - dylai cost cyfraniad y cyflogwr gael ei gynnwys yn y tâl am yr Ymgynghoriaeth);

4.2.2. i gyfrif Prifysgol penodedig i'w ddefnyddio ar gyfer unrhyw weithgaredd Prifysgol dilys (e.e. mynychu cynadleddau, prynu offer), ond gyda'r ddarpariaeth y bydd gwariant o'r cyfrif yn cael ei weithredu drwy gynllun busnes y Coleg neu adran nad yw'n rhan o Goleg.

4.3. Ni fydd y ddarpariaeth 4 hon yn berthnasol i staff sydd wedi'u heithrio dan yr eithriadau yng nghymal 1.3 y polisi hwn.

5. YMGYNGHORIAETH BREIFAT

5.1. Rhaid rhoi gwybod am unrhyw ymgynghoriaethau preifat i'r Awdurdodwr a'r Cyfarwyddwr, a'u cymeradwyo ganddynt, i sicrhau y cydymffurfir â'r Cymal 5 hwn.

5.2. Oni bai ei fod/bod wedi'i (h)awdurdodi yn unol â Chymal 3.7 neu 3.8, gall aelod staff wneud gwaith Ymgynghorol Preifat yn unig mewn meysydd y tu allan i arbenigedd academaidd, ymchwil neu weinyddol y caiff yr aelod staff ei gyflogi/chyflogi i'w gyflawni gan y Brifysgol.

5.3. Ym mhob achos rhaid i'r aelod staff gael cymeradwyaeth yr Awdurdodwr a'r Cyfarwyddwr. Rhoddir cymeradwyaeth o'r fath dim ond os cyflawnir yr holl amodau a ganlyn:

5.3.1. Bod yr Awdurdodwr wedi penderfynu y gellir gwneud yr Ymgynghoriaeth Breifat heb niweidio dyletswyddau academaidd, ymchwil neu weinyddol yr aelod staff, ac os na fydd yr Ymgynghoriaeth yn cael effaith niweidiol ar faich gwaith aelodau staff eraill.

5.3.2. Nad yw gwasanaethau'r Ymgynghoriaeth Breifat yn dod o fewn arbenigedd academaidd, ymchwil neu weinyddol y caiff yr aelod staff ei gyflogi/chyflogi i'w gyflawni gan y Brifysgol, neu bod y Cyfarwyddwr wedi cymeradwyo i'r ymgynghoriaeth gael ei chyflawni fel Ymgynghoriaeth Breifat.

5.3.3. Bod yr aelod staff yn hysbysu'r cleient, a bod y cleient yn cytuno yn ysgrifenedig o'r dechrau, bod y gwaith i'w gyflawni ar delerau personol ac na fydd y Brifysgol yn gyfrifol am y gwaith mewn unrhyw fodd. Mae'n rhaid i'r aelod staff a'r cleient lofnodi ffurflen indemniad, sy'n gwadu unrhyw gyfrifoldeb neu unrhyw atebolrwydd ariannol o du'r Brifysgol. Bydd y ffurflen indemniad yn y ffurf a bennir gan y Swyddfa Fasnachol.

5.3.4. Ac eithrio ar y ffurflen indemniad, ni ddefnyddir enw'r Brifysgol ar unrhyw ddogfen (megis dogfennau papur, neu ar e-bost, gwe-dudalennau neu gyfryngau electronig eraill) yn ymwneud â'r Ymgynghoriaeth Breifat ac ni ddylid rhoi unrhyw arwydd neu ddatganiad llafar neu ysgrifenedig bod y Brifysgol yn noddi'r ymgynghoriaeth.

5.3.5. Ni ddefnyddir adnoddau'r Brifysgol, megis labordai, ystafelloedd cyfarfod, offer TG, cronfeydd data neu e-bost, yn yr Ymgynghoriaeth Breifat ac eithrio lle gellir darparu'r adnoddau hynny ar delerau masnachol i'r rhai fydd yn gwneud Ymgynghoriaeth Breifat.

5.3.6. Mae'r aelod staff yn cymryd cyfrifoldeb cyfreithiol ac ariannol llawn dros y gweithgaredd, yn cynnwys gofynion yswiriant, holl daliadau treth a chyffelyb sy'n ddyledus ar ei (h)enillion, ac unrhyw ofynion yswiriant. Ni fydd y Brifysgol yn darparu indemniad proffesiynol neu yswiriant arall ar gyfer Ymgynghoriaeth Breifat.

5.3.7. Bydd gweithgareddau Ymgynghoriaeth Breifat yn cael eu cyflawni y tu allan i oriau gwaith arferol y Brifysgol.

5.4. Mae'r gwaharddiadau a nodir yn y cymal hwn, a'r darpariaethau ar gyfer cyflawni Ymgynghoriaeth Breifat, yn hanfodol i warchod y Brifysgol rhag atebolrwydd, i warchod eiddo deallusol y Brifysgol, ac i sicrhau y cydymffurfir â Pholisi Gwrthdaro Buddiannau. Felly, gall torri'r gwaharddiad hwn fod yn sail dros weithredu disgyblaethol.

6. GWASANAETHAU ALLANOL NAD YDYNT YN DOD DAN Y POLISI HWN

6.1. Nid yw Gwasanaethau Allanol, fel y diffinnir hwy yng Nghymal 2.8, yn dod dan y Polisi hwn ac nid yw'r incwm o Wasanaethau Allanol o'r fath yn dod dan y rheolau ar bennu incwm rhwng y Brifysgol a'r aelod staff.

6.2. Bydd datblygu deunyddiau addysgu ac academaidd a chyhoeddiadau eraill (llyfrau ac erthyglau) mewn Ymgynghoriaeth yn dod dan Bolisi'r Brifysgol ar Eiddo Deallusol.

6.3. Nid yw Darpariaeth 4 y Polisi hwn yn berthnasol i Ymgynghoriaeth Brifysgol a gyflawnir gan y Brifysgol, neu ei Cholegau neu Adrannau nad ydynt yn rhan o Goleg, neu ar eu rhan.

I osgoi unrhyw amheuaeth, mae'r gweithgareddau canlynol yn enghreifftiau sydd wedi eu heithrio o delerau'r polisi hwn:

- Breindaliadau neu elw arall o awduriaeth llyfrau, gwaith ar y cyfryngau, perfformiadau neu weithiau creadigol eraill.
- Elw o erthyglau a gyhoeddir mewn cylchgronau.
- Ffioedd am arholi, dilysu, arolygu.
- Ffioedd neu honoraria am ddarlithoedd cyhoeddus neu breifat achlysurol.
- Cloriannu llawysgrifau ac erthyglau mewn cylchgronau ysgolheigaidd.
- Golygu cylchgronau academaidd.
- Adolygu llyfrau (Adolygu brasluniau o lyfrau neu lawysgrifau i gyhoeddwyr, neu roi cyngor ar gyhoeddi).
- Honoraria am wasanaeth ar sefydliadau yn y sector gyhoeddus, asiantaethau llywodraeth neu bwyllgorau cysylltiedig
- Adolygu cynigion ymchwil i Gynghorau Ymchwil a noddwyr ymchwil eraill.
- Cyfraniadau achlysurol i'r wasg, y teledu a chyfryngau eraill.

7. CYD-DESTUN POLISI

Caiff y polisi hwn ei ddehongli a'i gyflwyno yn unol â pholisïau eraill y Brifysgol ac, yn arbennig, y polisïau hynny sy'n ymwneud â Dilysrwydd Ymchwil, Moeseg, Eiddo Deallusol a Gwrthdaro Buddiannau. Rhoddir ystyriaeth briodol i ofynion yn ymwneud â'r polisïau hynny yn ystod y prosesau awdurdodi perthnasol.

8. HYSBYSU

Mae'n rhaid i aelodau staff roi gwybod i'w Hawdurdodwr yn flynyddol am eu Gwasanaethau Ymgynghorol ac Allanol ac, i'r graddau sydd ei angen, ddatgelu gwybodaeth sydd ei hangen gan y Polisi ar Wrthdaro Buddiannau neu Ddatgan Buddiannau Allanol. Bydd y rhan a gymer staff mewn gweithgareddau ymgynghorol yn rhan o broses flynyddol Adolygu Perfformiad a Datblygiad, a fydd yn ystyried gwaith Ymgynghorol yng nghyd-destun eang cyrhaeddiad a rheoli baich gwaith.

9. GWEITHREDU A GWEITHDREFNAU

9.1. Yr Is-ganghellor fydd yn gyfrifol am weithredu'r Polisi hwn a gall ddirprwyo'r cyfrifoldeb hwnnw i rywun arall.

9.2. Caiff gweithdrefnau sy'n gyson â'r Polisi hwn eu mabwysiadu gan dimau gwasanaethau'r Brifysgol.

9.3. Bydd gan y Cyfarwyddwr a'r Swyddfa Fasnachol awdurdod eang a rhyddid i weithredu, o fewn cyfyngiadau (1) Siarter y Brifysgol ac unrhyw Reoliadau, Ordinhadau neu ddarpariaethau eraill a wneir gan y Cyngor, (2) y Polisi hwn, a (3) unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan yr Is-ganghellor, neu ar ei r(h)an, i fabwysiadu prosesau gweinyddol, cyfarwyddyd, ffurflenni a dehongliadau angenrheidiol i weithredu'r Polisi hwn ac unrhyw weithdrefnau'n effeithiol.

9.4. Bydd yr aelod staff a'r Awdurdodwr yn sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol wrth weithredu'r polisi hwn i ymrwymiadau dan y Rheoliadau Amser Gwaith (1998) ac y cefnogir y Brifysgol i gyflawni ei gofynion dan y Rheoliadau.

10. DATRYS ANGHYDFODAU

10.1. Dylai unrhyw faterion, anghydfod, hawliadau, neu unrhyw eglurhad sydd ei angen ynghylch darpariaeth y Polisi hwn, gael eu cyfeirio yn y lle cyntaf at Gyfarwyddwr y Swyddfa Fasnachol yn y Brifysgol a fydd yn cysylltu â'r Awdurdodwr perthnasol, neu'r sawl a enwebwyd ganddo/ganddi, wrth ystyried y mater.

10.2. Os na ellir cytuno ar benderfyniad derbyniol i bawb o fewn cyfnod rhesymol, yna gellir cyfeirio'r mater at y **Dirprwy Is-ganghellor dros Ymchwil** a fydd yn penderfynu ar y mater.

10.3. Os bydd y partïon yn ceisio cyngor allanol mewn anghydfod o'r fath, yna'r parti fydd yn ceisio'r cyngor hwnnw fydd yn talu'r gost amdano. Bydd y penderfyniad yn derfynol ac yn ymrwymo'r holl bartïon dan sylw.

11. CYDYMFFURFIO

Gall unrhyw achos o dorri'r polisi hwn gael ei drin fel mater difrifol gan y Brifysgol a gall arwain at gymryd camau'n unol â Threfniadau Disgyblu'r Brifysgol.

12. GWEITHREDU

Ni fydd y Polisi hwn yn ôl-weithredol. Daw'r Polisi hwn i rym ar [*dyddiad*] a bydd yn disodli'r holl bolisïau blaenorol yn ymwneud â darparu gwasanaethau ymgynghorol.

13. <u>HANES ADOLYGU</u>

Rheolir y polisi hwn gan y Swyddfa Fasnachol ac fe'i cymeradwyir gan y Pwyllgor Gweithredu, mewn ymgynghoriad â Bwrdd Cynllunio Cynghrair Strategol Aber-Bangor. Caiff ei adolygu'n ysbeidiol mewn ymgynghoriad â'r cyrff Prifysgol perthnasol.

DIWEDD[i]

[i] Cymeradwywyd y Polisi hwn gan Grŵp Gweithredol y Brifysgol ar Ebrill 2014